| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **28 MEDI 2009** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2008/09** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan gôd ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar 4 Mawrth 2003 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Côd yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig. Eleni, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried yr adroddiad hwn, gan fu adroddiad perthnasol i'r Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn (cyfarfod 18 Rhagfyr 2008).

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu ein gwir berfformiad am 2008/09 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol (wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod 28/02/2008). Edrycha'r adroddiad ar:

- sefyllfa bresennol portffolio rheoli'r trysorlys;
- y cyfraddau llog;
- benthyca;
- aildrefnu dyledion;
- buddsoddiadau; a
- chydymffurfiad â chyfyngiadau'r Trysorlys

Yn ystod y flwyddyn hysbysebwyd tendr gan y Cyngor am Wasanaethau Ymgynghori Rheolaeth Trysorlys. Gwahoddwyd tri chwmni i roi dyfynbris, sef cwmni Sector (sydd wedi darparu'r gwasanaeth i ni ers sawl blwyddyn), cwmni Arlingclose a chwmni Butlers. Yn dilyn cyflwyniadau, penodwyd cwmni Arlingclose ar ei union yn ymgynghorwyr newydd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar 28 Ionawr 2009.

## 2. PORTFFOLIO RHEOLAETH TRYSORLYS PRESENNOL Y CYNGOR

Roedd sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â dyledion a buddsoddiadau ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | 31 Mawrth 2009 | | 31 Mawrth 2008 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Prifswm** | **Cyfradd** | **Prifswm** | **Cyfradd** |
| Benthyciadau Cyllid Cyfradd Sefydlog | - PWLB*<br>- Y Farchnad | £121.7m<br>£16.2m | 6.22%<br>4.11% | £149.2m<br>£0.0m | 6.13% |
| Benthyciadau Cyllid Cyfradd Newidiol | - PWLB*<br>- Y Farchnad | £0.0m<br>£0.0m | | £0.0m<br>£0.0m | |
| **Cyfanswm Dyled** | | **£137.9m** | **6.06%** | **£149.2m** | **6.13%** |
| Buddsoddiadau | - Mewnol<br>- Gyda Rheolwyr | £71.7m<br>£0.0m | 5.1% | £77.1m<br>£0.0m | 5.84% |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | | **£71.7m** | **5.1%** | **£77.1m** | **5.84%** |

***PWLB – Public Works Loan Board**

## 3. CYFRADDAU LLOG

Mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys yn rhoi cyngor ar faterion rheolaeth trysorlys a rhan o'u gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i ffurfio barn ar gyfraddau llog.

### 3.1 Y Strategaeth Cyfraddau Llog

Rhagwelwyd y byddai cyfraddau llog yn y Deyrnas Unedig (DU) fel a ganlyn:

- **Cyfraddau Tymor Byr** – Roedd Banc Lloegr wedi gostwng y cyfraddau llog i 5.25% ym mis Ionawr 2008. Y disgwyl oedd y byddai gostyngiad pellach i 5% yn ystod Ail Chwarter 2008 ac y byddai'r gyfradd sylfaenol yn aros yn 5% hyd ddechrau 2010.
- **Cyfraddau Tymor Hir** - Roedd Sector yn rhagweld y byddai cyfradd 50 mlynedd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) yn disgyn rhywfaint o 4.50% yn Chwarter Cyntaf 2008 i 4.45% yn Ail Chwarter 2008 cyn codi'n ôl i 4.50% yn Nhrydydd Chwarter 2009.

### 3.2 Y Gwir Ganlyniad

Yn ystod 2008/09 roedd y gwir gyfraddau llog fel a ganlyn:

- **Cyfraddau Tymor Byr** - bu 2008 y flwyddyn waethaf ers rhai degawdau am gynnwrf ym myd credyd ac yn y marchnadoedd ariannol. Cyrhaeddodd yr argyfwng ariannol ei fan gwaethaf ar ôl i Lehman Brothers fynd i'r wal ym mis Medi ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach, banciau Gwlad yr Iâ. Led led y byd, bu'n rhaid i lywodraethau fynd i'r adwy i achub llawer o fanciau a sefydliadau ariannol. Llithrodd prisiau tai 17.50% yn ystod y flwyddyn ariannol a chododd lefelau diweithdra i 6.7%. Arhosodd y gyfradd sylfaenol yn 5.00% o fis Ebrill hyd at ddechrau mis Hydref. Yna, fel yr oedd pryderon ynghylch yr economi a'r wasgfa ariannol yn cynyddu, gostyngodd y gyfradd sylfaenol yn fisol hyd nes y cyrhaeddodd y lefel isaf y bu erioed o 0.50% ym mis Mawrth 2009.
- **Cyfraddau Tymor Hir** - Dechreuodd cyfradd 49½-50 mlynedd y PWLB y flwyddyn ar 4.43%. Y pwynt uchaf yn ystod y flwyddyn oedd 4.84% ym mis Ionawr 2009 a'r isaf oedd 3.86% ym mis Rhagfyr 2008.

## 4. BENTHYCA

### 4.1 Y Strategaeth Fenthyca yn 2008/09

Ar sail y rhagolygon ar gyfer y cyfraddau llog, y strategaeth fenthyca oedd cymryd benthyciadau hirdymor tua diwedd y flwyddyn ariannol. Gydol y flwyddyn ariannol, disgwyliwyd i fenthyca ar gyfraddau newidiol fod yn ddrytach na benthyca hirdymor ar gyfraddau sefydlog. Roedd y disgwyliadau hyn ar gyfer cyfraddau llog yn arwain at nifer o ddewisiadau:

- dylai'r Cyngor dynnu cyllid cyfradd sefydlog tra bod cyfraddau llog yn parhau'n weddol rhad, os credir bod risg sylweddol o godiad sydyn mewn cyfraddau hirdymor a byrdymor:
- byddai benthyciadau hirdymor yn cael eu gohirio a byddai unrhyw aildrefnu cyllid cyfradd sefydlog i gyllid gyfradd byr yn digwydd os teimlid bod risg sylweddol o ostyngiad sydyn yn y cyfraddau hirdymor a byrdymor.

Yn erbyn y cefndir hwn, mabwysiadwyd trefn ofalus gyda gweithgaredd y Trysorlys yn ystod 2008/09. Bwriad y Cyngor oedd monitro'r marchnadoedd cyfraddau llog a mabwysiadu dull pragmatig i unrhyw newid mewn amgylchiadau.

### 4.2 Gwir Weithgaredd Cyfraddau Llog a Benthyca yn 2008/09

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd y Cyngor i leihau ei bortffolio dyledion drwy ad-dalu £10.8m yn gynamserol. Yn ogystal, aildrefnodd y Cyngor fenthyciadau gwerth £16.2m er mwyn lleihau'r cyfraddau llog hirdymor a delir ar ei ddyled.

## 5. AILDREFNU DYLEDION

### 5.1 Y Strategaeth Aildrefnu Dyledion yn 2008/09

Awgrymodd Strategaeth y Cyngor gallasai fod cyfleoedd i aildrefnu dyledion hirdymor er mwyn creu arbedion.

Byddai unrhyw aildrefnu yn digwydd er mwyn lleihau'r risg cyffredinol i'r Cyngor o ganlyniad i symudiadau yn y cyfraddau llog, i leihau'r taliadau llog hirdymor a delir ar ei ddyledion, ac i lyfnhau'r proffil aeddfedrwydd heb gyfaddawdu'r sefydlogrwydd cyffredinol hirdymor, na newid ei broffil cyfnewidiol (h.y. maint y risg gyda dyledion â chyfraddau newidiol).

### 5.2 Gwir Weithgaredd Aildrefnu Dyledion

Bu cyfleoedd yn ystod 2007/08 i aildrefnu dyledion a llwyddodd y Cyngor i aildrefnu wyth benthyciad ym mis Gorffennaf 2008. Yn ogystal, llwyddodd y Cyngor i ad-dalu dau fenthyciad pellach yn gynamserol ym mis Ionawr 2009.

Mae ad-dalu dyledion yn gynamserol sydd heb fod yn gysylltiedig ag ail-gyllido yn ddull o ddiogelu'r Cyngor rhag bod yn agored i risg credyd, gan fod ad-dalu dyled yn lleihau'r arian sydd ar gael i'w fuddsoddi. Gall hyn fod yn briodol ble bo'r adenillion ar fuddsoddiadau yn llai na chyfuniad o log cyfansawdd ar ddyled a phremiymau neu ddisgowntiau a geir ar adbryniadau cynamserol.

Ad-dalwyd/benthyciwyd y benthyciadau a ganlyn:

**Benthyciadau a ad-dalwyd/adrefnwyd**

| Dyddiad | Benthyciwr | Prifswm £ | Cyfradd % | Cyfnod y ddyled (blynyddoedd) | (Y premiwm a dalwyd) / Disgownt a dderbyniwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 28/07/08 | PWLB | £267,207 | 10.750% | 3 | (£22,619) |
| 28/07/08 | PWLB | £114,517 | 10.875% | 1 | (£7,514) |
| 28/07/08 | PWLB | £2,749,000 | 4.375% | 3 | £45,887 |
| 28/07/08 | PWLB | £2,707,000 | 4.250% | 3 | £55,008 |
| 28/07/08 | PWLB | £3,000,000 | 4.875% | 6 | £12,654 |
| 28/07/08 | PWLB | £3,000,000 | 5.000% | 12 | (£2,793) |
| 28/07/08 | PWLB | £3,854,328 | 4.750% | 15 | £85,109 |
| 28/07/08 | PWLB | £500,000 | 4.500% | 16 | £24,842 |
| 28/01/09 | PWLB | £6,292,000 | 4.625% | 19 | (£90,666) |
| 28/01/09 | PWLB | £4,500,000 | 4.350% | 22 | £149,261 |
| | | **£26,984,052** | | | **£249,169** |

**Cyfnewid Benthyciad:**

| Dyddiad | Benthyciwr | Prifswm £ | Cyfradd % | Cyfnod y benthyciad (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|
| 28/07/08 | Barclays | £16,200,000 | 4.22% | 70 |

Wrth ad-drefnu’r benthyciad uchod, llwyddwyd i leihau costau’r ddyled yn gyffredinol. O ganlyniad i fenthyciad newydd, cyfnodau benthyciadau’n dod i ben yn ystod y flwyddyn a gweithgareddau ail-strwythuro dyledion, newidiodd y gyfradd gyfartalog ar ddyled y Cyngor o 6.13% ar 31 Mawrth 2008 i 6.06% ar 31 Mawrth 2009.

Bydd portffolio’r Cyngor yn parhau i gael ei adolygu gan Arlingclose er mwyn manteisio ar gyfleoedd i aildrefnu dyledion.

## 6. BUDDSODDIADAU

Yn ystod y flwyddyn roedd gan y Cyngor falansau arian cyfartalog o £88.1m. Mae’r rhain yn cynnwys Balansau a Chronfeydd, balansau arian gwaith yn ogystal â benthyciadau a dynnwyd i lawr cyn gwneud gwariant cyfalaf.

Mae’r Cyngor yn rheoli’i fuddsoddiadau yn fewnol ac yn buddsoddi gyda’r sefydliadau yn rhestr gwrth bartïon awdurdodedig y Cyngor. Mae’r Cyngor yn buddsoddi am gyfnodau amrywiol, yn cynnwys cyfnodau dros nos i hyd at flwyddyn (neu hyd at dair blynedd tan mis Chwefror 2009), yn dibynnu ar lif arian y Cyngor, ei farn ar gyfraddau llog a’r cyfraddau llog sydd ar gael.

**6.1 Y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2008/09**

Yn seiliedig ar y rhagolygon y byddai'r gyfradd sylfaenol yn codi i 5.25% yn Chwarter Cyntaf 2008 ac yn parhau ar y lefel hwnnw hyd yn fuan yn 2010, ceisiodd y Cyngor i gloi buddsoddiadau cyfnodau hwy ar y cyfraddau uchaf cyn i'r gostyngiad hwn gychwyn ar gyfer yr elfen honno o'i bortffolio buddsoddiadau sy'n cynrychioli'i falansau craidd.

**6.2 Gwir Weithgaredd Buddsoddi yn 2008/09**

Gweler isod fanylion ynghylch canlyniad y strategaeth fuddsoddi a gwblhawyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

| | **Y Gyfradd Adenillion a gafwyd gan Gyngor Gwynedd** | **Adenillion Meincnod*** |
|---|---|---|
| Rheolir yn fewnol | 5.10% | 3.53% |
| Rheolir yn allanol | Ddim yn berthnasol | 3.59% |

Gwerth ariannol y gwahaniaeth rhwng cyfradd dychweliadau'r Cyngor a'r dychweliadau meincnod ar gyfer cronfeydd a reolir yn fewnol oedd £1,401,722 (nid yw'r uchod yn cynnwys buddsoddiadau ym Manc Heritable, sy'n cael sylw isod).

Gwnaed 356 buddsoddiad yn ystod y flwyddyn. Roedd gan Uned Fuddsoddi'r Cyngor darged mewnol o fuddsoddi 100% o'r arian mewn sefydliadau gyda statws credyd A – neu uwch. Llwyddodd yr uned i gyrraedd y targed yn 2008/09. Roedd y gwir ganrannau fel a ganlyn:

| **Statws Credyd** | **Canran** |
|---|---|
| AA+ | 36% |
| AA | 6% |
| AA- | 43% |
| A+ | 2% |
| A | 10% |
| A- | 3% |
| **CYFANSWM** | **100%** |

Er gwaetha'r flaenoriaeth a roddwyd i ddiogelwch arian (yn hytrach nac uchafu llog a dderbynnir), mae risg yn parhau.

Yn fuan ym mis Hydref 2008, bu i'r tri prif fanc yng Ngwlad yr Iâ (Glitnir, Kaupthing a Landsbanki) fynd i'r wal. Yn y DU, rhoddodd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) Kaupthing, Singer & Friedlander (is-gwmni Kaupthing yn y DU) a Banc Heritable (is-gwmni Landsbanki yn y DU) yn nwylo'r gweinyddwyr. Mae'r gweinyddwyr yn chwilio am brynwyr a byddant yn parhau i reoli busnesau'r banciau a'r llyfrau dyledion er mwyn i'r credydwyr uchafu eu hadenillion. Bydd y broses gweinyddu yn pennu faint fydd y swm y gellir ei adennill a hefyd y raddfa amser dros yr hyn y bydd y fath daliadau yn cael eu gwneud.

Roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau o dros £4m gyda Banc Heritable. Roedd adroddiad cynnydd credydwyr a gyhoeddwyd gan y gweinyddwyr Ernst and Young, dyddiedig 17 Ebrill 2009, yn rhagweld y byddai credydwyr yn adennill 80c yn y £ erbyn diwedd 2013, a talwyd y difidend cyntaf o 16.13c yn y £ ar 30 Gorffennaf 2009. Yn sgil hyn, mae'r Cyngor wedi penderfynu cydnabod lleihad yng ngwerth yr ased yn seiliedig ar iddo adennill 80c yn y £. Os bydd amgylchiadau economaidd perthnasol yn gwella dros y cyfnod hwn (yn bennaf, pe bai cynnydd yng ngwerth eiddo erbyn 2013), mae'n bosib y bydd yr adenillion terfynol yn uwch na'r hyn sy'n ymddangos uchod.

Yn sgil yr argyfwng bancio, roedd hyder yn y marchnadoedd yn fregus iawn ac roedd risg y cyd bartïon ar ei uchaf. Ymateb y Cyngor oedd cyfyngu'r buddsoddiadau newydd i sefydliadau yn y DU gyda mynediad at Gynllun Gwarant Credyd 2008 y Llywodraeth yn ogystal â statws credyd yn y categori 'AA'. Dim ond wyth sefydliad oedd yn bodloni'r maen prawf hwn. Maent yn cynnwys: Abbey National, Banc Barclays, Banc Clydesdale, Banc HSBC, Banc Lloyds TSB a'r Bank of Scotland (y ddau olaf yn rhan o Grŵp Bancio Lloyds), Cymdeithas Adeiladu Nationwide a'r Royal Bank of Scotland.

Roedd pob buddsoddiad a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Arferion Rheoli'r Trysorlys a chyfyngiadau a osodwyd ac a gytunwyd arnynt gan y Cyngor.

## 7. CYDYMFFURFIAD Â CHYFYNGIADAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gweithredodd y Cyngor o fewn cyfyngiadau fel y'i gosodwyd yn Natganiad Polisi Rheoli Trysorlys Cyngor Gwynedd a Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

## 8. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.